# Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad CBLl

Dyddiad Cyfarfod CBLl: Dydd Mercher, 20 Medi 2023

Lleoliad: Cyfarfod hybrid, wedi ei gynnal gan RCT

Cadeirydd: Cyng Ted Palmer, Clwyd

Is Gadeirydd: Cyng Elwyn Williams, Dyfed

| Eitem agenda | Manylion |
|---|---|
| Diweddariad awdurdod lletya | Rhoddodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a chamau / blaenoriaethau nesaf PPC.<br><br>Ni fu unrhyw newid i amserlen caffael gweithredwyr ac mae'r Gwahoddiad i dendor yn dal i fod ar y trywydd iawn i gael ei gyhoeddi ganol mis Hydref 2023.<br><br>Mae PPC yn y broses o ddrafftio ymateb i ymgynghoriad Buddsoddiadau CPLlL a bydd yr ymateb yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau, sef 2 Hydref 2023.<br><br>Cyflwynodd Anthony hefyd y diweddariad o Gynllun Busnes 2023/24 ar 30 Mehefin 2023 (ynghlwm). |
| Cofrestr Risg<br>Adolygiad Ch3 2023 | Mae'r OWG yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CLl bob chwarter. Mae gan yr OWG Is-grŵp Risg penodedig i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg a cynnal adolygiad chwarterol o'r ddogfen.<br><br>Yn ystod Ch3 2023, mae adolygiad wedi'i gynnal o'r Risgiau Hyfforddiant, Adnoddau a Chyfathrebu.<br><br>Cyflwynodd Hymans y newidiadau a gymeradwywyd gan y CBLl. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i lwytho ar wefan PPC. |
| Polisi newydd:<br>Polisi Toriadau a Gwallau | Mae Polisi Toriadau a Gwallau newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer PPC sy'n nodi polisi a gweithdrefnau PPC ar |

| | |
|---|---|
| | nodi, rheoli a lle bo angen adrodd am achosion o dorri'r gyfraith yn unol ag adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004.<br><br>Cymeradwywyd y polisi newydd ac mae wedi'i lwytho ar wefan PPC.<br><br>Nid oedd unrhyw adolygiadau polisi y chwarter hwn. |
| Diweddariad Gweithredwr | Cyflwynodd Link ei adroddiad diweddaru chwarterol ar 30 Mehefin 2023 (ynghlwm). Mae hwn yn rhoi diweddariad ar is-gronfeydd a gweithgarwch corfforaethol ac ymgysylltu PPC.<br><br>Disgwylir i werthiant Link Fund Solutions i Waystone Management UK Ltd derfynu ar 9 Hydref 2023. |
| Adroddiadau Perfformio ar 30 Mehefin 2023 | Cyflwynodd Russell Investments bapur crynodeb perfformiad Ch2 2023 (ynghlwm) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2023. |
| **Eitemau eithredig** – trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod y rhan nad oedd yn gyhoeddus o'r cyfarfod. | |
| Adroddiad Benthyca Stoc ar 30 Mehefin 2023 | Dechreuodd Benthyca Stoc ym mis Mawrth 2020 a chyflwynodd Northern Trust yr Adroddiad Benthyca Stoc ar gyfer Ch2 2023 (chwarter yn dod i ben 30 Mehefin 2023). |
| Adroddiad Ymgysylltu Robeco– Ch2 2023 | Ym mis Mawrth 2020, penodwyd Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i gyflawni swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 2 2023. Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer y chwarter hwn oedd Ymgysylltu â Dadlau Byd-eang. |
| Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd | Pob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu Adroddiadau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd chwarterol ar gyfer is-gronfeydd PPC.<br><br>Ar gyfer Chwarter 2 2023 (chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2023), cynhyrchwyd adroddiadau ARB a MAC.<br><br>Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r JGC. |

| | |
|---|---|
| Adolygiad trosglwyddo yr is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy | Mae PPC wedi lansio Cronfa Ecwiti Cynaliadwy i'w rheoli gan Russell Investments. Mae gan y gronfa werth portffolio o £1.2bn, gyda phob un o'r wyth Cronfa Gymreig yn cymryd rhan. Penodwyd Citi yn rheolwr pontio.<br><br>Mae Hymans, mewn partneriaeth â Byhiras, darparwr annibynnol dadansoddeg pontio, wedi cynnal adolygiad o weithrediad Citi a dilysiad o'r costau. Llwyddodd y broses bontio i reoli nifer o risgiau allweddol, sef rheoli prosiect, arian cyfred, sector a risg y tu allan i'r farchnad, a symud asedau'n llwyddiannus i'r is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy ar ran pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.<br><br>Cyflwynodd Hymans yr adroddiad i aelodau'r CBLl. |

Dolen gwe-ddarllediad ar gyfer cyfarfod 20 Medi 2023 y JGC isod:

Wales Pension Partnership Joint Governance Committee - Wednesday 20 September 2023, 10:00am - Rhondda Cynon Taf County Borough Council (public-i.tv)

Cyfeiriad Gwefan PPC - Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref (partneriaethpensiwncymru.org)

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023 – Cyfarfod rhithiol